Y Swyddfa Archwilio Cymru Newydd

Sut y bydd yn effeithio ar archwilio ac arolygu

Awst 2004

Rhagair

Mae bron yn sicr bellach y crëir y Swyddfa Archwilio Cymru newydd ar 1 Ebrill 2005. Bydd hyn yn gyfle rhagorol i'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fanteisio ar system fodern o archwilio ac arolygu. Er mwyn casglu 'difidend yr 21ain ganrif', bydd yn rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru wneud gwir wahaniaeth i bobl ac i gymunedau trwy ofalu bod y gwasanaethau cyhoeddus yn atebol, a'u helpu i wella. Yr ydym yn gweitio'n galed i sicrhau cyfnod o drawsnewid esmwyth i' sefydliad newydd, a'n bwriad yw ei adeiladu yn gorff o safon fyd-eang.

Mae'n debygol y bydd defnyddwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn awyddus i wybod pa effaith y bydd y corff newydd yn ei chael ar yr arferion archwilio ac arolygu. Er bod y cynlluniau canoldymor i ddatblygu potensial llawn Swyddfa Archwilio Cymru yn rhai uchelgeisiol, yr her dros y tymor byr fydd sicrhau parhad y gweithgarwch yn ystod y cyfnod trosiannol tra bo'r drefn newydd yn cael ei sefydlu. Yn ystod yr hydref sy'n dod, byddwn yn ymgynghori ynghylch rhaglenni gwaith dechreuol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru .

Yn y cyfamser, bwriad y ddogfen hon yw nodi pa bethau a fydd yn newid yn y drefn gyffredinol o archwilio ac arolygu o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth newydd, pa bethau fydd yn aros yr un fath, beth fydd cost y drefn newydd, a sut y mesurir llwyddiant Swyddfa Archwilio Cymru

Os oes genncyh unrhwy sylwadau neu gwestiynnau pellach ynglŷn a'r ddogfen hon gallwch eu gyrru at c-grace@audit-commission.gov.uk neu trwy ysgrifennu at Clive Grace yn: Comisiwn Archwilio yng Nghymru, Tŷ Deri, 2-4 Park Grove, Caerdydd, CF10 3PA.

Sir John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Clive Grace
Dirprwy ACC a Darpar Brif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru a Cyfarwyddwr-Cyffredinol y Comisiwn Archwilio yng Nghymru

6ed Awst 2004

Beth fydd yn wahanol ynghylch Swyddfa Archwilio Cymru?

Pan grëir Swyddfa Archwilio Cymru bydd gan Gymru, fel yr Alban, un corff archwilio ac arolygu a fydd yn cwmpasu pob sector o lywodraeth ar wahân i'r rheini a barheir i'w llywodraethu gan lywodraeth y DU. Fel pennaeth Swyddfa Archwilio Cymru, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru nail ai'n archwilio sefydliadau yn uniongyrchol, fel yn achos y Cynulliad a'r GIG neu, fel yn achos llywodraeth leol, yn penodi'r archwilwyr.

Prif nodweddion y broses o greu Swyddfa Archwilio Cymru yw'r canlynol:

- Crëir y Swyddfa trwy gyfrwng deddfwriaeth sylfaenol yn y Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru). Rhagwelir y daw'r mesur yn ddeddf yn ystod y sesiwn Seneddol gyfredol, ac y bydd hynny'n arwain at greu'r Swyddfa ar 1 Ebrill 2005. Rhoddir y ddeddfwriaeth mewn grym trwy Orchymyn Cychwyn a wneir gan y Cynulliad.
- Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn dwyn at ei gilydd swyddfeydd y Comisiwn Archwilio yng Nghymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru, o dan Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC).
- Rhagwelir y bydd ACC newydd llenwi'r swydd honno o 1 Ebrill 2005 ymlaen, ond ar hyn o bryd, nid yw'n eglur pa bryd y gwneir y penodiad hwnnw.

Galluoedd newydd a gwell

Yn ogystal â chyfuno pwerau presennol y cyrff a'i rhagflaenodd, bydd gan Swyddfa Archwilio Cymru alluoedd newydd a gwell. Bydd y rhain yn cynnwys:

- pwerau mynediad estynedig i ddilyn y "bunt gyhoeddus" mor bell â'r derbynwyr a'r contractwyr, gan ddyrchafu pwerau o'r fath, felly, i'r safon a bennwyd yn adolygiad yr Arglwydd Sharman, *Holding to Account*;
- pŵer penodol newydd i baratoi adroddiadau buddiant cyhoeddus ar unrhyw un o'r cyrff a archwilir gan Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys cyrff unigol GIG Cymru;
- pŵer newydd i gynnal astudiaethau rhagolygol ar gael gwell gwerth am arian o wasanaethau unrhyw un o'r cyrff a archwilir gan Swyddfa Archwilio Cymru. Yr oedd archwiliadau yn y gorffennol o anghenraid yn adolygol eu natur, ond bydd y pŵer newydd hwn yn caniatáu archwilio cyfleoedd i wella'r trefniadau;
- y gallu i gynnal astudiaethau gwerth am arian mewn sefydliadau addysgol unigol ar gais y sefydliadau hynny neu ar gais eu cyrff cyllido. Ar hyn o bryd, trwy arfer hawliau arolygu yn unig y gellir edrych ar sefydliadau addysgol unigol i hwyluso archwiliadau'r cyrff cyllido;
- y gallu, gyda chytundeb y Cynulliad, i gynnal astudiaethau o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig;
- yr ACC ei hunan, yn hytrach nag archwilwyr apwyntiedig, a fydd yn archwilio cyrff GIG; felly gosodir yr adroddiadau ar y cyrff hynny gerbron y Cynulliad, a gellir eu cymryd yn dystiolaeth gan Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad.

Rhaglen waith gydlynol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru

Mae sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru yn creu cyfleoedd am synergedd wrth archwilio ac arolygu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn arbennig, bydd yn gwella'r cyfleoedd i rannu gwybodaeth ac arferion da, yn enwedig ar draws gwahanol sectorau. Yn yr un modd, gellir defnyddio deunydd o archwiliadau ac arolygiadau cyrff lleol i greu darlun llawnach o effeithiau polisïau cenedlaethol trwy'r wlad yn gyffredinol. Gall y r olwg hon a gaiff Swyddfa Archwilio Cymru ar y darlun cyflawn, yn genedlaethol ac yn lleol, fod yn offeryn pwerus y gellir ei ddefnyddio er budd y rhai sy'n gyfrifol am lunio, cyflawni a chraffu ar bolisïau, yn ogystal â'r sawl sy'n derbyn ac yn talu am wasanaethau

Dylai dyfodiad Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wella effeithlonrwydd yr archwilio a'r arolygu. Trwy ddarparu trosolwg gynhwysfawr, gall Swyddfa Archwilio Cymru sicrhau bod yr ymdrech archwilio ac arolygu yn cael ei thargedu'n fanylach ar y mannau lle mae'i hangen fwyaf. O gael darlun mwy cyflawn o'r risgiau i'r gwerth a geir am arian, yn eu cyd-destun gweithredol, dylai fod yn bosibl asesu'r risgiau hynny yn fwy manwl. Yn y maes iechyd, bydd y ddeddfwriaeth newydd yn gosod dyletswyddau cilyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru i gydweithredu gyda'r Cynulliad, y Comisiwn Archwilio (yn Lloegr) a'r Comisiwn Gofal Iechyd (sef y Comisiwn Archwilio ac Arolygu Gofal Iechyd).

Gwell cysondeb proffesiynol trwy gyfrwng Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu newydd

Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn darparu ar gyfer paratoi Cod Ymarfer gan Archwilydd Cenedlaethol Cymru, a fydd yn crynhoi'r arferion proffesiynol gorau mewn perthynas â'r safonau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir gan archwilwyr. Bydd defnyddio'r Cod yn ofyniad statudol yn achos archwiliadau llywodraeth leol, ond dymuniad yr ACC yw estyn y Cod ar sail anstatudol i gwmpasu'r holl waith archwilio ac arolygu cyrff cyhoeddus sydd o fewn cylch gwaith Swyddfa Archwilio Cymru, gan greu Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a fydd yn hyrwyddo a lledaenu gwell cysondeb proffesiynol. Rydym yn ymgynghori yn fuan ynghylch fersiwn drafft o'r Cod hwn, ac anogwn bawb sydd â diddordeb i fanteisio ar y cyfle hwnnw i ddatgan eu barn.

Pa bethau fydd yn aros yr un fath?

O dan y ddeddfwriaeth newydd, bydd y gofynion cyfreithiol presennol i gynnal archwiliadau ariannol blynyddol yn parhau yn ddigyfnewid i bob pwrpas. Yn yr un modd, bydd y gofynion presennol am raglenni astudiaethau gwerth am arian a rhaglenni arolygu hefyd yn parhau.

Ymgynghori

Bydd y gofynion statudol i ymgynghori gyda Phwyllgor Archwilio'r Cynulliad a llywodraeth leol (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chymdeithasau cyflogeion llywodraeth leol) , mewn perthynas â gwaith yn sectorau'r Cynulliad a llywodraeth leol, yn eu trefn, yn parhau yn ddigyfnewid. Yn yr un modd, bydd y gofyniad yn parhau i ymgynghori ynghylch penodi archwilwyr ar gyfer llywodraeth leol.

Adroddiadau cyhoeddus

Bydd llawer agwedd ar drefniadau adrodd Swyddfa Archwilio Cymru yn aros yr un fath. Parheir i adrodd yn y ffordd bresennol am ganlyniadau archwiliadau ariannol ac astudiaethau gwerth-am-arian mewn perthynas â'r Cynulliad. Gosodir yr adroddiadau hyn gerbron y Cynulliad, ac ystyrir y rhai sydd â sylwedd annibynnol – sef adroddiadau am astudiaethau gwerth-am-arian ac archwiliadau ariannol sy'n codi materion o ddiddordeb a pherthnasedd cyffredinol – gan Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cyhoeddi canlyniadau astudiaethau cenedlaethol o gyrff lleol ac adroddiadau ar ei arolygiadau gwerth gorau. Bydd archwilwyr apwyntiedig yn paratoi adroddiadau cyffredinol ar eu harchwiliadau a hefyd, pan fo angen, yn paratoi adroddiadau er budd y cyhoedd.

Bydd yr adroddiadau i'r Cynulliad yn dyfynnu o ganlyniadau'r gwaith archwilio llywodraeth leol i raddau helaethach nag yn y gorffennol; fodd bynnag, byddant yn datgan y gwneir hyn er mwyn craffu ar y system gyfan, ac nid er mwyn dal llywodraeth leol yn atebol. Ni fydd yr adroddiadau'n cynnwys casgliadau ynglŷn ag awdurdodau lleol, nac ychwaith argymhellion i'r awdurdodau lleol. Lle bynnag y bo angen hynny, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn paratoi adroddiadau ar wahân, ac ni fydd yn eu gosod gerbron y Cynulliad.

Un agwedd benodol na fydd yn newid ynglŷn â lledaenu gwybodaeth yw'r cyfyngiad ar ddatgelu gwybodaeth a gesglir mewn archwiliadau llywodraeth leol, a'r sancsiynau troseddol perthynol a ddarperir yn adran 49 Deddf y Comisiwn Archwilio 1998. Mae Llywodraeth y DU, fodd bynnag, wedi mynegi bwriad i newid adran 49 yng ngoleuni goblygiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ac wedi darparu cyfleuster ym Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) i estyn newidiadau o'r fath i Gymru. Ym mhapur ymgynghorol y Fforwm Archwilio Cyhoeddus, *Freedom of Information and Public Sector Audit* (Rhagfyr 2002), edrychir yn fwy manwl ar y materion cyffredinol sy'n codi ynglŷn ag effaith Rhyddid Gwybodaeth ar archwilio yn y sector cyhoeddus.

Y Cod Ymarfer Archwilio Cyfredol

Agwedd benodol arall na fydd yn newid ar unwaith ynghylch gwaith archwilio yw'r Cod Ymarfer Archwilio cyfredol, sy'n berthnasol i waith archwilwyr apwyntiedig cyrff llywodraeth leol. Bydd mabwysiadu'r Cod Ymarfer Archwilio newydd ar 1 Ebrill 2005 yn digwydd cyn cwblhau gwaith archwilio 2004-05. Er mwyn caniatáu i archwiliadau 2004-05 gael eu cwblhau'n drefnus, bydd ACC yn defnyddio'r trefniadau trosiannol i ailfabwysiadu'r Cod Ymarfer Archwilio presennol, fel y bo'i ddarpariaethau'n parhau mewn grym yng Nghymru tra cwblheir yr archwiliadau hyn.

Faint fydd cost y Swyddfa Archwilio Cymru newydd?

Amcangyfrifir mai'r gost o sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru, yn ystod 2004-05 cyn bo'r Swyddfa'n weithredol ac yn ystod ei blwyddyn gyntaf, 2005-06, fydd oddeutu £987,000. Seilir y costau hyn ar y gwaith a wneir ac ar ddyfynbrisiau amodol a roddwyd i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac i'r Comisiwn Archwilio. Yr cydrannau mwyaf yn yr amcangyfrif hwn yw cost caffael y seilwaith TG a thelathrebu newydd, cyfrifeg, cyflogau, adnoddau dynol a systemau cofnodi taflenni amser, rheolaeth prosiectau arbenigol, a chostau datblygu llawlyfr archwilio a meddalwedd cymorth archwilio cyfunedig. Y pennawd gwariant unigol mwyaf yw'r £350,000 am dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae'r TAW anadferadwy ar yr eitemau uchod, sef £147,000, hefyd yn eitem sylweddol.

Mae'r gwariant hwn yn hanfodol er mwyn trosglwyddo staffiau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) a'r Comisiwn Archwilio i'r sefydliad newydd yn unol â'r gofynion cyfreithiol a'r arferion da a ddisgwylir yn y sector cyhoeddus, ac er mwyn sicrhau bod y seilwaith a'r gwasanaethau cymorth angenrheidiol yn eu lle erbyn 1 Ebrill 2005 fel y gellir parhau'r gweithrediadau busnes yn ddi-dor. Os yw'r sefydliad newydd i fod yn weithredol o'r diwrnod cyntaf un, rhaid gwneud y buddsoddiad sylweddol hwn ymlaen llaw i sicrhau bod systemau cadarn ac integredig yn eu lle ac wedi eu profi'n drylwyr.

O ran gwasanaethau cymorth, mae NAO Cymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn manteisio ar hyn o bryd ar yr arbedion graddfa sy'n deillio o fod yn rhan o sefydliadau llawer mwy ar lefel Cymru a Lloegr, sef y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio. Bydd gofyn i Swyddfa Archwilio Cymru gyflenwi ei gwasanaethau cymorth ei hunan, ac y mae'n annhebygol, felly, y bydd y gwasanaethau hynny'n cynnig cyfle i wneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol.

Wrth sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru allan o'r ddau sefydliad cyfredol, edrychir i wella effeithiolrwydd y gweithrediadau a'r cynnyrch ym mhob cyfeiriad posibl. Ni fydd unrhyw newid o bwys yn digwydd ym maint y gwaith archwilio ariannol a ymgymerir. Fodd bynnag, wrth i'r prosesau setlo i'w lle, hwyrach y bydd modd gwneud arbedion lle'r oedd cylchoedd gwaith gwerth-am-arian y sefydliadau blaenorol yn gorgyffwrdd, er enghraifft yn y sector iechyd.

Sut y bydd llwyddiant Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei werthuso?

Y maen prawf mwyaf arwyddocaol mewn perthynas â chreu Swyddfa Archwilio Cymru fydd y gwasanaeth allanol a gyflwynir ganddi – ei barhad, ei ansawdd a phrofiad eraill ohono. Er mwyn bodloni'r prawf hwn, bydd yn hanfodol cynnwys a symbylu'r staff ar bob lefel, sicrhau rheolaeth prosiect effeithiol ar y broses o integreiddio, darparu cyfathrebu tra effeithiol yn fewnol ac yn allanol, ac yn y blaen. Ond yn y pen draw, pethau yw'r rhain sy'n gwasanaethu'r gofynion y berthynas rhyngom â'r cleientiaid.

Nid y rhain, wrth gwrs, fydd yr unig heriau a phrofion y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn eu hwynebu wrth geisio datblygu yn sefydliad o safon fyd-eang ar gyfer archwilio ac arolygu gwasanaethau cyhoeddus. Petai ond er mwyn cynnal y gwasanaeth, yr ansawdd a'r enw da presennol , byddai gofyn datblygu systemau, creu fframweithiau a sefydlu gwasanaethau newydd. Ond dylai'r ystyriaethau o wasanaeth, ansawdd ac enw da hefyd bennu'r blaenoriaethau a'r modd y dyrennir adnoddau.

Bydd Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad yn cymryd diddordeb byw yn natblygiad Swyddfa Archwilio Cymru ac yn disgwyl i'r Swyddfa newydd brofi ei gwerth. Gall y Pwyllgor, wrth gwrs, fanteisio ar ganlyniadau gwaith archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru. Fel sy'n digwydd gyda'r trefniadau presennol ar gyfer archwilio ACC, ffyrm gyda'r cymwysterau priodol a benodir gan y Cynulliad fydd yr archwilydd hwnnw. Yn ogystal, os gellir barnu yn ôl profiadau'r gorffennol, bydd y Pwyllgor hefyd yn disgwyl gweld Swyddfa Archwilio Cymru yn cael effaith gref a gwirioneddol, er enghraifft trwy ganfod arbedion ariannol y gellir eu hailfuddsoddi i wella'r gwasanaeth, a gwneud argymhellion ar gyfer gwell rheolaeth, er enghraifft wrth drin risgiau a'r modd yr ymgymerir â busnes cyhoeddus. Mae'n sicr hefyd y bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn edrych yn fanwl ar y buddion a ddaw o Swyddfa Archwilio Cymru, yn enwedig, efallai, wrth ymgynghori ynghylch cyfraddau ffioedd archwilio llywodraeth leol.

Os hoffech fynegi safbwynt neu wneud sylw, anfonwch eich sylwadau at Clive Grace, Dirprwy Archwilydd Cyffredinol Cymru yn c-grace@audit-commission.gov.uk

Awst 2004